Prifysgol Caerdydd ac
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Cytundeb Perthynas 2025/2026

Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

## Cynnwys y Cytundeb Perthynas


1. Statws Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
2. Partneriaeth Strategol
3. Prifysgol sy’n Canolbwyntio ar Fyfyrwyr
4. Llais y Myfyrwyr
5. Ymddygiad Myfyrwyr
6. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
7. Y Gymraeg
8. Y Weithdrefn Gwyno
9. Rhyddid Barn
10. Diogelu data a’i rannu
11. Cefnogaeth ac Ymrwymiad Cilyddol
12. Cyllid a Chyfrifon yr Undeb
13. Adeilad Undeb y Brifysgol a meddiant safleoedd y Brifysgol
14. Cysylltiad â Chyrff Allanol
15. Dyrannu Adnoddau’r Undeb i Grwpiau, Clybiau a Chymdeithasau Myfyrwyr
16. Statws a Chyhoeddi'r Cytundeb Perthynas
17. Cyfeirnodau
18. Rhestr Termau

*Mae'r termau a amlygir yn* wyrdd wedi'u diffinio *yn yr Eirfa*.

## Cyflwyniad a Chyd-destun

Nod y Cytundeb Perthynas hwn yw mynegi'r berthynas rhwng Prifysgol Caerdydd ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, ac mae'n amlinellu'r sail ar gyfer y berthynas rhwng y partïon a'r egwyddorion y maen nhw'n gweithredu'n unol â nhw.

Mae'r cytundeb wedi dilyn arweiniad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn y Cylchlythyr, '*Revised guidance on good practice in funding of effective, democratic student unions, and student representation*' (Cyfeirnod: W14/06HE).

Mae'r cytundeb hwn yn gweithredu fel y Côd Ymddygiad a ddiffiniwyd yn, ac sy'n ofynnol yn ôl Adran 22 Deddf Addysg 1994; ac yn unol â gofynion y Ddeddf hon, rhaid i Brifysgol Caerdydd wneud yn siŵr bod y gofynion sy'n berthnasol ar gyfer Undeb y Myfyrwyr yn cael eu rhoi ar waith.

## Egwyddorion

### 1. Statws Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

Egwyddor: *Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd (yr Undeb) yw Undeb Myfyrwyr Cydnabyddedig Prifysgol Caerdydd at ddibenion Deddf Addysg 1994.*

Undeb Myfyrwyr yw'r Undeb, fel y'i diffinnir yn Neddf Addysg 1994, gyda rheoliadau a rheolau mewnol wedi'u cymeradwyo gan ei Fwrdd Ymddiriedolwyr a chan Gyngor y Brifysgol, sef corff llywodraethol y Brifysgol. Mae'r Undeb yn elusen gofrestredig (Rhif Elusen: 1137163) a chwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cwmni: 07328777). Mae'r Undeb yn annibynnol ac yn gweithredu ar wahân i'r Brifysgol. Mae hefyd yn gwmni elusennol. Felly, mae ei gyfansoddiad wedi'i lunio gan ei Femorandwm a'i Erthyglau Cyweithio Mae'n cael ei lywodraethu gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr, sy'n gweithredu fel Cyfarwyddwyr at ddibenion cyfraith cwmnïau ac fel Ymddiriedolwyr at ddibenion cyfraith elusennau. Y rheswm dros hynny yw statws yr Undeb fel cwmni elusennol. Mae'n rhaid i fwyafrif o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gytuno ar benderfyniadau'r Bwrdd.

Mae gan yr Undeb yr hawl i reoli ei faterion a'i gyllid ei hun fel y'i diffinnir yn ei Femorandwm ac Erthyglau Cyweithio, a gymeradwyir ar y cyd gan y Brifysgol ar gyfnodau heb fod yn hwy na phum mlynedd. Yn unol â Deddf Addysg 1994, mae gan Gyngor y Brifysgol ddyletswydd statudol i sicrhau bod yr Undeb yn cael ei redeg mewn modd teg a democrataidd a'i fod yn atebol am ei gyllid.

Mae gan yr Undeb is-gwmni a reolir gan yr Undeb yn rhinwedd ei unig aelodaeth: Cardiff Union Services Limited (CUSL). Adroddir ar y cwmni hwn, ynghyd â'r Undeb fel grŵp.

Amcanion elusennol yr Undeb yw hyrwyddo addysg myfyrwyr[1] ym Mhrifysgol Caerdydd er budd y cyhoedd drwy: hybu buddiannau a lles myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ystod eu hastudiaeth a chynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr; bod yn sianel gynrychioliadol gydnabyddedig rhwng Myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac unrhyw gyrff allanol eraill; a darparu gweithgareddau a fforymau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden ar gyfer trafodaethau a dadleuon ar gyfer datblygiad personol ei Fyfyrwyr.

[1] Fel y caiff ei ddiffinio yn Statud 1 Prifysgol Caerdydd (2.10)

## 2. Partneriaeth Strategol

Egwyddor: *Mae'r Brifysgol a'r Undeb yn gweithio mewn partneriaeth i lywio datblygu a gweithredu cynlluniau strategol sy'n gefnogol i'r ddwy ochr.*

Mae gan y Brifysgol a'r Undeb gynlluniau strategol sy'n ceisio gwella addysg a phrofiad pob myfyriwr yn y Brifysgol. Mae'r Swyddogion Etholedig a staff yr Undeb yn cwrdd â staff y Brifysgol ar bob lefel yn rheolaidd mewn ystod o leoliadau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn gwella eu hamcanion strategol.

Mae'r Undeb yn adrodd am ei weithgareddau ac yn nodi meysydd sy'n peri pryder trwy adroddiadau rheolaidd i Gyngor y Brifysgol ac mewn cyfarfodydd gyda staff y Brifysgol ar bob lefel. Mae Llywydd etholedig yr Undeb a'r Prif Weithredwr penodedig yn cwrdd yn rheolaidd ag Is-Ganghellor, Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol yn y drefn honno, ac mae uwch-staff y Brifysgol yn cwrdd yn rheolaidd â swyddogion etholedig yr Undeb. Mae'r Is-Ganghellor yn cyfarfod bob tymor gyda'r holl swyddogion sabothol (yn ogystal â chyfarfod gyda Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn rheolaidd) ac mae'n cynnal Fforymau Trafod i Fyfyrwyr bob blwyddyn academaidd. Mae Grŵp Partneriaeth hefyd (dan gadeiryddiaeth y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr a Llywydd Undeb y Myfyrwyr) yn cwrdd yn fisol i drafod a hybu gweithgarwch rhwng Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol. Cyfarfod anffurfiol rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yw hwn er mwyn trafod materion sy'n dod i'r amlwg a meysydd allweddol sy'n gysylltiedig â gweithio ar y cyd.

Trefnir cyfnod ymsefydlu blynyddol ar gyfer Swyddogion Etholedig yr Undeb at ddiben cyfathrebu strwythurau, llywodraethu, blaenoriaethau a phrosiectau'r Brifysgol ar y cyd rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys o leiaf ddwy sesiwn gydag uwch-arweinwyr a rheolwyr y brifysgol i drafod blaenoriaethau'r Brifysgol a'r swyddogion, cinio anffurfiol rhwng Bwrdd Gweithredol y Brifysgol, a sesiynau arbenigol ar strwythurau'r Brifysgol. Mae'r rhaglen gynefino hefyd yn ceisio sefydlu perthynas a darparu fforwm ar gyfer trafod meysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

Mae gan y Brifysgol yr hawl i enwebu dau Ymddiriedolwr i ddod yn aelodau o Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Undeb, fel y'u diffinnir gyda Memorandwm ac Erthyglau Cyweithio'r Undeb. Cydnabyddir bod cyfraniad Ymddiriedolwyr a Enwebwyd gan Brifysgol yn rhan annatod o lywodraethu da'r Undeb. Bydd Aelodau Myfyrwyr y Cyngor yn cynnwys Llywydd Undeb y Myfyrwyr ac un swyddog etholedig arall o'r Undeb (sy'n cynrychioli ôl-raddedigion), fel y rhagnodir gan Ordinhadau'r Brifysgol. Mae cydnabyddiaeth o bwysigrwydd safbwynt myfyrwyr yn rhan o broses y Brifysgol o wneud penderfyniadau'n cael ei hamlygu gan y ffaith bod myfyrwyr yn aelodau o bob un o brif bwyllgorau'r Brifysgol, yn ogystal â grwpiau ymgynghorol y Brifysgol.

Yn ogystal â chael myfyrwyr yn aelodau o gorff llywodraethol y Brifysgol, mae myfyrwyr yn aelodau o gyrff eraill gan gynnwys: Y Senedd, Pwyllgor Cyllid a Seilwaith, Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio, Pwyllgor Pobl, Cynefin a Llywodraethu, Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr, Pwyllgor Safonau Academaidd ac Ansawdd, ac ystod o grwpiau eraill sy'n gysylltiedig â phrofiad myfyrwyr (gan gynnwys Pwyllgor Gwaith y Gymraeg).

## 3. Prifysgol sy'n Canolbwyntio ar Fyfyrwyr

Egwyddor: *Mae'r Brifysgol a'r Undeb yn rhannu ymrwymiad i ddatblygu a gwella profiad y myfyrwyr.*

Mae lefel uchel o ymgysylltu rhwng y Brifysgol, yr Undeb a'r corff myfyrwyr. Mae'r bartneriaeth hon yn galluogi myfyrwyr i ddod yn ddysgwyr annibynnol a chydol oes o fewn diwylliant sy'n meithrin, yn hyrwyddo ac yn parchu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r system Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr a strwythurau llywodraethu'r Undeb yn galluogi'r Brifysgol a'r Undeb i barhau i gydweithio er mwyn gwella bodlonrwydd myfyrwyr.

Mae'r Undeb yn cefnogi strategaeth y Brifysgol, ac yn benodol ei nodau o gynnig profiad addysgol ardderchog i fyfyrwyr o bob cefndir a phrofiad, ac ymrwymiad i ddysgu hyblyg gydol oes sy'n creu newid cadarnhaol. Strategaeth bresennol y Brifysgol yw Ein dyfodol gyda'n gilydd, sydd â'r nod o ddarparu profiad addysgol rhagorol i fyfyrwyr o bob cefndir a phrofiad a chaiff hyn ei gefnogi gan yr Undeb.

Mae'r Undeb yn bodoli i hyrwyddo buddiannau a lles myfyrwyr yn ystod eu cwrs astudio a chynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr. Dyma'r sianel gynrychioliadol gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac mae'n darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden a fforymau ar gyfer trafodaethau a dadlau ar gyfer datblygiad personol myfyrwyr. Nod y gweithgareddau hyn yw cefnogi lles myfyrwyr, cadw myfyrwyr a gwella cyflogadwyedd myfyrwyr yn unol â nodau'r Brifysgol.

Wrth ddarparu gweithgareddau chwaraeon a hamdden mae Adran Chwaraeon y Brifysgol ac Undeb Athletaidd ac Is-lywydd Chwaraeon yr Undeb yn gweithio mewn partneriaeth drwy gydol y flwyddyn i gefnogi myfyrwyr i gymryd rhan mewn chwaraeon, sicrhau llwyddiant y rhai sy'n cynrychioli'r Brifysgol, ac i gyflwyno digwyddiadau allweddol fel digwyddiad blynyddol Varsity. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau ymgynghoriad ag Undeb y Myfyrwyr a myfyrwyr wrth archwilio newidiadau a allai effeithio'n uniongyrchol ar fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd.

Trwy gyfathrebu rheolaidd a gweithio ar y cyd, mae Tîm Cyngor Myfyrwyr yr Undeb a Thîm Bywyd Myfyrwyr y Brifysgol yn parchu ac yn cefnogi ei gilydd i hyrwyddo a diogelu buddiannau a lles y corff myfyrwyr.

### 4. Llais y Myfyrwyr

Egwyddor: *Bydd y Brifysgol a'r Undeb yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau cyfleoedd i fyfyrwyr fynegi eu barn a bod yn bartneriaid wrth wneud penderfyniadau'r Brifysgol a'r Undeb.*

Swyddogion Etholedig yr Undebau
Mae gan yr Undeb saith Swyddog llawn amser (yr Ymddiriedolwyr Sabothol) a 10 Swyddog rhan-amser, sy'n cael eu hethol drwy bleidlais traws-gampws i gynrychioli gwahanol grwpiau cyfansoddol y corff myfyrwyr yn ôl eu disgrifiad swydd. Diben y Swyddogion hyn yw ymgysylltu â myfyrwyr a'u cynrychioli, ynghyd â gweithio'n rhan o bartneriaeth â rhanddeiliaid i gyfleu eu barn a'u buddiannau i'r Brifysgol ac i gyrff allanol. Yn ystod eu gwaith, bydd Swyddogion Etholedig yn defnyddio gwahanol ffurfiau o ymgyrchu, aelodaeth o bwyllgorau'r Brifysgol, a chyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol eraill gyda staff y Brifysgol a chyrff allanol.

Y System Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr
Mae Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr yn fyfyrwyr sy'n cael eu hethol gan gymheiriaid o fewn eu carfan i roi cysylltiad hanfodol rhwng eu Hysgol a'u Coleg i'r Undeb a'r Brifysgol ehangach. Eu prif gyfrifoldebau yw cynrychioli eu cyd-fyfyrwyr; helpu i wneud penderfyniadau sy'n gwella profiad y myfyriwr; rhoi adborth ar y penderfyniadau hyn i'w carfan; a gweithio mewn partneriaeth â staff y Brifysgol i ddatblygu prosiectau a mentrau.

Mae'r Brifysgol a'r Undeb yn cefnogi'r system Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr ar y cyd ac yn cydweithio i sicrhau cynrychiolaeth myfyrwyr ar lefel Rhaglen, Ysgol, Coleg a Phrifysgol gyfan. Mae'r Undeb yn cymryd cyfrifoldeb dros recriwtio, hyfforddi a chefnogi'r Cynrychiolwyr Academaidd drwy Dîm Llais y Myfyrwyr yn yr Undeb. Mae'r Brifysgol, drwy'r Academi Dysgu ac Addysgu, yn cefnogi ymgorffori system y Cynrychiolwyr Academaidd yn rhan o Bwyllgorau'r Brifysgol. Mae'r Academi Dysgu ac Addysgu yn cefnogi penodiad a chymorth Cydlynwyr Cynrychiolwyr Myfyrwyr mewn Ysgolion. Maen nhw'n cynnal eu rolau trwy bwyllgorau, strwythurau a phrosesau addysg a phrofiad y myfyrwyr yr Ysgol. Mae'r Brifysgol a'r Undeb yn sicrhau bod gan Gynrychiolwyr Academaidd fynediad at ddata arolwg perthnasol, canlyniadau gwella modiwlau, a chofnodion Byrddau Astudiaethau i gefnogi eu gwaith.

Adborth myfyrwyr ac arolygon myfyrwyr

Er mwyn helpu i ddeall anghenion myfyrwyr, mae'r Brifysgol a'r Undeb yn cymryd rhan mewn deialog rheolaidd ac yn casglu adborth gan fyfyrwyr a'i ddefnyddio i wella profiad y myfyrwyr. Mae enghreifftiau o ddata a ddefnyddir yn y ffordd hon yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS), Arolwg Profiad Ymchwil Ôl-raddedig (PRES), Arolwg Ôl-raddedig a Addysgir Prifysgol Caerdydd (CUPTS), Gwella Modiwlau, Wythnos Siarad, Cofnodion Panel Staff Myfyrwyr, Grwpiau Ffocws a gweithdai.

Mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn cydweithio, gyda myfyrwyr, i nodi cyfleoedd i wella'r profiad yma yng Nghaerdydd yn barhaus ac i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am lwyddiannau. Mae sicrhau bod myfyrwyr yn deall sut mae eu hadborth yn cael ei ddefnyddio a'i werthfawrogi yn flaenoriaeth i Gaerdydd ac mae'r Brifysgol a'r Undeb yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i gefnogi 'cau'r cylch adborth' drwy ymgyrchoedd blynyddol amrywiol. Gall myfyrwyr glywed am y gwelliannau rydyn ni'n eu gwneud mewn sawl ffordd gan gynnwys cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar Newyddion Myfyrwyr a chyfathrebiadau gan eich Ysgol, erthyglau ar y fewnrwyd, negeseuon ar Ddysgu Canolog, a gwybodaeth sy'n cael ei phostio o amgylch y campws.

Barn y Myfyrwyr

Mae'r Undeb yn casglu ac yn dogfennu materion a phryderon sy'n wynebu myfyrwyr presennol yn Barn y Myfyrwyr ac yn rhoi awgrymiadau ar gyfer gweithredu i Gyngor y Brifysgol. Bydd cyflwyniad yn cael ei ddarparu i'r Brifysgol pan fydd pryder neu fater yn codi y bernir bod Barn Myfyrwyr ffurfiol yn angenrheidiol ar ei gyfer. Bydd y Brifysgol yn ymateb i bob cyflwyniad. Ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd bydd yr Undeb yn cyfuno'r holl gyflwyniadau â chrynodeb gweithredol a fydd yn cael ei gyflwyno i'w adolygu drwy broses lywodraethu'r Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r Safbwyntiau Myfyrwyr a'r Crynodeb Gweithredol cyfunol blynyddol, ac yn gweithio'n rhagweithiol ar atebion i'r materion a godwyd mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr. Mae'r Brifysgol a'r Undeb yn ymrwymo i gefnogi'r gweithgareddau hyn ac i fonitro a rhoi gwybod am weithrediad y camau y cytunwyd arnynt. Mae'r ymateb i Farn y Myfyrwyr yn cael ei gytuno, caiff ei gwblhau'n derfynol a'i weithredu ar y cyd ag Undeb y Myfyrwyr a'i gyflwyno wedyn i'r Cyngor er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn ymateb yn rhagweithiol ac mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr.

Ymgynghori â Myfyrwyr

Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i sicrhau bod Undeb y Myfyrwyr a myfyrwyr yn cymryd rhan briodol mewn ymgynghoriad neu weithgaredd ymgysylltu perthnasol pryd bynnag y datblygir newidiadau arfaethedig sy'n effeithio'n sylweddol ar fyfyrwyr. Lle bo'n bosibl, bydd gweithgaredd ymgynghori yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr a bydd llwybrau clir ar gyfer sut mae barn myfyrwyr yn bwydo i waith parhaus y Brifysgol.

Llywodraethu

Cynrychiolir myfyrwyr ar strwythurau llywodraethu'r Brifysgol drwy swyddogion etholedig Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr academaidd.

Mae monitro, a darparu cyfeiriad strategol ar gyfer gweithgaredd Llais Myfyrwyr yn eistedd gyda Phwyllgor Llais a Phartneriaeth Myfyrwyr (SVPC). Mae SVPC o fewn y strwythurau llywodraethu addysg ffurfiol ar gyfer y Brifysgol ac yn bwydo i mewn i'r Pwyllgor Profiad Myfyrwyr Addysg (ESEC). Bydd y pwyllgor yn:

- Sicrhau bod Fframwaith Llais y Myfyrwyr yn cael ei roi ar waith a bod unrhyw newidiadau/diweddariadau sydd eu hangen yn cael eu gwneud
- Sicrhau bod gweithgarwch llais y myfyrwyr yn cyd-fynd â strategaeth y sefydliad
- Edrych ar weithgarwch llais y myfyrwyr yn synoptig drwy ystyried yr ecosystem gyfan, gan gynnwys argymell newidiadau a gwelliannau fel sy'n briodol

- Monitro'r ymateb i gamau gweithredu a'u cwblhau o Farn Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr

## 5. Ymddygiad Myfyrwyr

Egwyddor: *Mae'r Brifysgol a'r Undeb yn gweithio'n gydweithredol i ymchwilio i ac i wrando ar honiadau o ymddygiad myfyrwyr yn ymwneud â grwpiau, clybiau a chymdeithasau myfyrwyr neu ag unigolion pan maent ar safleoedd yr Undeb neu wrth gymryd rhan yng ngweithgareddau a gwasanaethau Undeb y Myfyrwyr.*

Mae gan y Brifysgol a'r Undeb broses o ymchwilio ar y cyd ar gyfer ymchwilio i faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad honedig unigolion a/neu grwpiau, clybiau a chymdeithasau myfyrwyr, a adolygir yn flynyddol gan gofrestrydd academaidd y Brifysgol a Phrif Weithredwr yr Undeb. Mae'r broses wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â phryderon ymddygiad grwpiau myfyrwyr mewn modd cyflym, teg a chyson.

Mae gan yr Undeb god ymddygiad annibynnol ar gyfer aelodau myfyrwyr unigol, wedi'i gymhwyso mewn perthynas ag ymddygiad myfyrwyr ar fangreoedd yr Undeb neu tra bônt yn cymryd rhan yng ngweithgareddau a gwasanaethau'r Undeb. Mae'r Undeb yn rhannu manylion digwyddiadau'n ymwneud ag ymddygiad myfyrwyr o fath arwyddocaol a difrifol drwy adroddiad blynyddol a gyflwynir i grŵp Bywyd Myfyrwyr y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn gyfrifol am ymddygiad cyffredinol myfyrwyr yn y Brifysgol ac mae'n cynnal polisi, prosesau a gweithdrefnau cysylltiedig ac mae pob un o'r rhain sy'n caniatáu i fyfyrwyr geisio cyngor a chynrychiolaeth gan yr Undeb.

## 6. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Egwyddor: *Mae gan y Brifysgol a'r Undeb ymrwymiad ar y cyd i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a bod yn sefydliad gwrth-hiliol.*

Mae'r Brifysgol a'r Undeb wedi ymrwymo i greu a chefnogi amgylchedd cyfartal, amrywiol a chynhwysol. Nod y Brifysgol a'r Undeb yw hyrwyddo cymuned urddasol ac egwyddorol, lle mae cydraddoldeb yn cael ei hyrwyddo; gwerthfawrogir amrywiaeth a chynwysoldeb, ac unigolion yn cael eu parchu; mae ymddygiad yn cael ei arwain gan godau uniondeb academaidd, moeseg ac ymddygiad da; mae pawb yn derbyn eu cyfrifoldebau i'w gilydd; ac mae'r iaith Gymraeg a Saesneg yn cael eu trin ar sail cydraddoldeb. Mae gan y Brifysgol Gynllun Cydraddoldeb Strategol i hyrwyddo cydraddoldeb a sicrhau gwelliannau o ran cydraddoldeb, ac ategir hyn gan lawer o bolisïau cysylltiedig, gan gynnwys y polisi Urddas yn y Gwaith a Pholisi Astudio. Mae Cynllun y Brifysgol a dogfennau llywodraethiant yr Undeb yn cyfeirio'n benodol at gydraddoldeb y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r Brifysgol yn hyrwyddo hinsawdd o gyfle cyfartal i bob myfyriwr ac mae'n sicrhau ei bod yn bodloni ei chyfrifoldebau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth, diogelu a nodweddion gwarchodedig. Mae'r Brifysgol yn darparu hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i staff o fewn y Brifysgol a'r Undeb er mwyn sicrhau y caiff yr egwyddorion craidd hyn eu hyrwyddo. Mae'r Undeb wedi'i achredu â statws Buddsoddwyr mewn Amrywiaeth ac mae wedi ymrwymo i gynnal y safon.

## 7. Y Gymraeg

Egwyddor: *Mae gan y Brifysgol a'r Undeb ymrwymiad cyffredin i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.*

Mae'r Brifysgol a'r Undeb wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb, gyda pharch ac ystyriaeth gyfartal. Mae'r Brifysgol wedi gweithredu Strategaeth Iaith Strategol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar y campws ac i fonitro cynnydd; cefnogir y strategaeth hon gan sawl polisi cysylltiedig, gan gynnwys y rhai sy'n rhoi arweiniad ar rwymedigaethau statudol y Brifysgol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i fyfyrwyr, darpar fyfyrwyr, aelodau'r cyhoedd, a staff. Bydd Deon y Gymraeg y Brifysgol ac Is-lywydd Undeb y Myfyrwyr Cymraeg yn gweithio'n weithredol mewn

partneriaeth drwy gydol y flwyddyn i fynd ar drywydd ymrwymiad y Brifysgol a'r Undeb ar y cyd i'r Gymraeg.

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi sefydlu Polisi'r Gymraeg a Chynllun Datblygu'r Gymraeg, gyda'r nod o wella eu cynnig Cymraeg a hyrwyddo ei defnydd. I gydnabod eu hymdrechion yn y maes hwn, dyfarnwyd achrediad Cynnig Cymraeg i Undeb y Myfyrwyr gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Mae Safonau'r Gymraeg y Brifysgol (ein dyletswyddau statudol) yn rhoi hawl i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y Brifysgol, ac mae'r hawliau hyn yn cael eu hyrwyddo'n weithredol drwy gydol pob blwyddyn academaidd. **Y Weithdrefn Gwyno**

Egwyddor: *Mae gweithdrefn gwyno ar gael i fyfyrwyr sy'n anfodlon yn eu hymwneud â'r Undeb.*

Gall myfyrwyr sy'n anfodlon ar eu profiadau gyda'r Undeb neu sy'n honni eu bod dan anfantais annheg oherwydd eu bod wedi arfer eu hawl i beidio â bod yn aelod o'r Undeb wneud cwyn i'r Undeb, yn unol â Gweithdrefn Cwyno, Disgyblu ac Apeliadau'r Undeb . Os yw myfyriwr yn parhau i fod yn anfodlon, gall gwyno i'r Brifysgol yn unol â gofynion Deddf Addysg 1994. Gall y Brifysgol gyfeirio'r mater i gael ei ystyried gan berson a benodir yn annibynnol.

## 9. Rhyddid Barn

Egwyddor: *Mae'r Brifysgol a'r Undeb wedi ymrwymo i'r egwyddor o ryddid mynegiant yn unol â'r gyfraith.*

Mae Deddf Addysg (2) 1986 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol gymryd unrhyw gamau sy 'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod rhyddid barn o fewn y gyfraith yn cael ei sicrhau i fyfyrwyr, i staff ac i ymwelwyr. Mae Deddf Addysg (2) 1986 hefyd yn gosod dyletswydd ar y Brifysgol i gyhoeddi Côd Ymarfer ynghylch Rhyddid Barn; sy'n amlinellu'r gweithdrefnau a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan y rhai hynny sy'n trefnu neu'n mynychu cyfarfodydd neu weithgareddau eraill.

Mae'r Brifysgol a'r Undeb yn dilyn gweithdrefn archebu siaradwyr allanol sefydledig er mwyn sicrhau y cynhelir rhyddid barn yn unol â'r gyfraith. Mae holl ddigwyddiadau'r Undeb, gan gynnwys digwyddiadau clybiau a chymdeithasau myfyrwyr cysylltiedig, yn dod o fewn y weithdrefn hon. Mae'r cyfyngiadau ar ryddid mynegiant a osodir gan y Brifysgol yn unol â'r gyfraith wedi'u manylu yn adran 3.12 Cod Ymarfer Rhyddid Barn y Brifysgol.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i Undeb y Myfyrwyr roi trefniadau ar waith i asesu a oes angen cofrestru unrhyw weithgareddau o dan y Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor a bydd yn hysbysu'r Brifysgol am unrhyw ddigwyddiadau y gallai fod angen eu cofrestru.

## 10. Diogelu data a'i rannu

Egwyddor: *Mae'r Brifysgol a'r Undeb yn cydnabod pwysigrwydd perthynas agored pan fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol a bydd data personol yn cael ei rannu mewn modd cyfreithlon a diogel.*

Caiff rhannu data personol ei lywodraethu gan Gytundeb Prosesu Data rhwng y ddau barti sy'n cael ei adolygu bob dwy flynedd ac yn cael ei gytuno mewn cydymffurfio â Pholisïau Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth y Brifysgol a Pholisi/Datganiadau Preifatrwydd Diogelu Data Undeb y Myfyrwyr. Mae Hysbysiad Diogelu Data Myfyrwyr ac Ymgeiswyr y Brifysgol yn rhoi rhagor o wybodaeth am ba ddata myfyrwyr sy'n cael ei rannu, sut rydym yn ei rannu a'r rhesymau dros ei rannu. Mae hysbysiad preifatrwydd Undeb y Myfyrwyr yn manylu ar yr wybodaeth gyfatebol ar gyfer data personol y mae'r undeb yn ei gadw sy'n cael ei rannu â'r Brifysgol.

## 11. Cefnogaeth ac Ymrwymiad Cilyddol

Egwyddor: *Mae'r Brifysgol a'r Undeb wedi ymrwymo i'r bartneriaeth, rhyngweithio adeiladol a pharch ar y cyd.*

Sefydlir perthynas y Brifysgol a'r Undeb o fewn Siarter, Statudau ac Ordinhadau'r Brifysgol a manylir ymhellach arnynt yn Siarter y Myfyrwyr a'r cytundeb perthynas hwn. Mae'r Brifysgol a'r Undeb yn buddsoddi amser ac adnoddau yn y bartneriaeth ac o ganlyniad maent wedi mwynhau perthynas lwyddiannus dros gyfnod estynedig. Cydnabyddir bod cyfathrebu llawn, agored a rheolaidd ar faterion sy'n debygol o gael effaith ar y parti arall, poblogaeth y myfyrwyr a/neu gyd-randdeiliaid eraill yn ategu llwyddiant a chryfder parhaus y bartneriaeth.

Mae'r Brifysgol a'r Undeb yn cydnabod ac yn parchu'r rôl wahanol sydd gan y naill a'r llall. Mae'r Brifysgol yn cydnabod gwerth Undeb Myfyrwyr cryf ac annibynnol a arweinir gan fyfyrwyr sydd â'r pŵer i bennu a rheoli ei faterion ei hun.

Mae'r Undeb yn cydnabod yr angen am i'r Brifysgol gydbwyso buddiannau ystod o randdeiliaid o fewn cyd-destun allanol sy'n fwyfwy heriol. Mae'r Brifysgol a'r Undeb yn cydnabod y gall hyn arwain at wahaniaethau o safbwynt, a phan fo hynny'n digwydd, mae'r ddwy ochr yn ymrwymo i gymryd rhan mewn deialog gynnar, adeiladol sy'n cydnabod manteision cydweithio i wella profiad y myfyrwyr.

## 12. Cyllid a Chyfrifon yr Undeb

Egwyddor: *Mae gan yr Undeb y pŵer i reoli ei faterion a'i gyllid ei hun, yn unol â gofynion Ordinhadau'r Brifysgol a'r cytundeb ariannol rhwng y Brifysgol a'r Undeb.*

Yn unol â Deddf Addysg 1994 mae gan y Brifysgol ddyletswydd statudol i sicrhau bod yr Undeb yn cael ei redeg mewn modd teg a democrataidd a'i fod yn atebol am ei gyllid. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu Grant Bloc a chefnogaeth ariannol arall i'r Undeb gyda strwythur o gefnogaeth, goruchwylio a rhoi gwybod am fanylion o fewn cytundeb ariannol. Mae cefnogaeth ariannol i'r Undeb yn destun adolygiad gan y Pwyllgor Polisi ac Adnoddau, cymeradwyaeth gan Gyngor y Brifysgol, ac fe'i rhoddir yn unol â gofynion Ordinhad 13 a'r cytundeb ariannol rhwng y Brifysgol a'r Undeb.

## 13. Adeilad Undeb y Brifysgol a meddiant safleoedd y Brifysgol

Egwyddor: *Mae'r Undeb yn meddiannu adeilad Undeb y Brifysgol ym Mhlas y Parc trwy brydles gan y Brifysgol ac mae'n meddiannu detholiad o ystafelloedd ar gampws y Mynydd Bychan.*

Mae'r Undeb yn meddiannu adeilad Undeb y Brifysgol ym Mhlas y Parc trwy brydles am rent rhad, ac mae'r gefnogaeth anariannol hon yn greiddiol i'r gefnogaeth a ddarperir gan y Brifysgol i'r Undeb. Mae'r grant bloc blynyddol a wneir i'r Undeb yn ystyried rhwymedigaethau costau cynnal a chadw a rhedeg yr Undeb sy'n gysylltiedig ag adeilad Undeb y Brifysgol.

Mae'r Undeb yn meddiannu detholiad o ystafelloedd o fewn adeiladau Neuadd Meirionnydd a'r Prif Ysbyty ar Gampws Parc y Mynydd Bychan heb gytundeb ffurfiol, i gefnogi gweithgareddau a gwasanaethau'r Undeb ym Mynydd Bychan. Mae'r Brifysgol a'r Undeb yn ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod mannau, gweithgareddau a gwasanaethau ffisegol yn cael eu darparu ar gyfer gweithgareddau'r Undeb ar gampws y Mynydd Bychan.

Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i alluogi staff yr Undeb, swyddogion a grwpiau myfyrwyr i gael mynediad i adeiladau'r Brifysgol yn unol â nodau ac amcanion yr Undeb. Yn yr un modd, mae'r Undeb yn ymrwymo i alluogi staff y Brifysgol i gael mynediad at fannau'r Undeb. Mae gan staff y Brifysgol hefyd yr hawl i wneud cais am aelodaeth gysylltiol o'r Undeb neu ei grwpiau myfyrwyr er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau a gwasanaethau'r Undeb.

## 14. Cysylltiad â Chyrff Allanol

Egwyddor: *Mae gan yr Undeb yr hawl i ymlynu wrth sefydliadau allanol yn unol â'i amcanion a Chyfraith Elusennol. Mae'r Undeb yn penderfynu ar ei ymlyniadau'n ddemocrataidd gan ufuddhau i'r rheolau o fewn ei Femorandwm a'i Erthyglau Cymdeithasu ac yn unol â'r gofynion yn Neddf Addysg 1994.*

Mae'r Undeb yn cyhoeddi rhestr o ymlyniadau allanol a ffioedd a delir i'r sefydliadau hynny yn flynyddol yn ei Adroddiad Blynyddol gan yr Ymddiriedolwyr, yn unol â Deddf Addysg 1994.

Caiff manylion y gweithdrefnau i adolygu ymlyniadau wrth sefydliadau allanol eu nodi ym Memorandwm ac Erthyglau Cyweithio, Is-ddeddfau ac Atodiadau Is-ddeddfau yr Undeb. Yn unol â Deddf Addysg 1994 gall Cyngor y Brifysgol bennu'r cyfnod amser ar gyfer adolygu a chyfran yr Aelodau sy'n ofynnol i ofyn am adolygiad o ymlyniadau allanol, i'w benderfynu drwy bleidlais gudd (y mae gan bob aelod o'r Undeb yr hawl i gymryd rhan ynddi).

## 15. Dyrannu Adnoddau'r Undeb i Grwpiau, Clybiau a Chymdeithasau Myfyrwyr

Egwyddor: *Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1994, mae'r Brifysgol yn disgwyl bod gweithdrefn ar gyfer dyrannu adnoddau'n briodol i grwpiau myfyrwyr. Dylai'r drefn ar gyfer dyrannu adnoddau i grwpiau a chlybiau myfyrwyr fod yn deg, wedi'i nodi mewn ysgrifen a dylai fod ar gael yn rhwydd i bob myfyriwr.*

Mae'r Undeb yn darparu cyllid i grwpiau, clybiau a chymdeithasau myfyrwyr trwy grantiau cyffredinol ac arbennig. Mae manylion ar y broses neu'r cais am gyllid ar wefan yr Undeb (www.cardiffstudents.com) o dan yr adran adnoddau pwyllgorau. Gall myfyrwyr ofyn am ragor o wybodaeth drwy gysylltu ag unrhyw un o Ymddiriedolwyr Sabothol neu staff uwch yr Undeb.

## 16. Statws a Chyhoeddi'r Cytundeb hwn

Egwyddor: *Bydd y Brifysgol a'r Undeb yn adolygu'r Cytundeb Perthynas yn flynyddol.*

Bydd y Cytundeb Perthynas yn cael ei adolygu'n flynyddol gan Gyngor y Brifysgol a Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Undeb. Mae wedi'i gyhoeddi yn adran llywodraethu gwefan y Brifysgol ac yn adran llywodraethu gwefan yr Undeb, a chyfeirir ati ym mhroses ymsefydlu'r Brifysgol y mae myfyrwyr yn ei dilyn yn flynyddol.

## 17. Cyfeirnodau

Siarter, Statud ac Ordinhadau Prifysgol Caerdydd
Memorandwm ac Erthyglau Cyweithio Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
Deddf Addysg 1986 (2)
Deddf Addysg 1994
Gweithdrefn Gwyno Undeb y Myfyrwyr
Strategaeth Prifysgol Caerdydd
Strategaeth Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Caerdydd – Fframwaith Llywodraethiant
Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol
Cod Ymarfer Rhyddid Barn

## 18. Rhestr Dermau

**Grant Bloc**
Mae'r Grant Bloc yn swm blynyddol o arian a roddir gan y Brifysgol i Undeb y Myfyrwyr i gefnogi gweithgareddau'r Undeb yn ariannol. Cytunir ar y swm a'i ddyfarnu bob blwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, fel y manylir yn y Cytundeb Ariannol.

**Byrddau Astudio**
Cyfarfodydd ffurfiol sy'n dod â Pennaeth yr Ysgol ac aelodau staff priodol ynghyd i drafod materion academaidd a chefnogi'r broses o gyflwyno addysg sy'n ymwneud â rhaglenni a gynigir o fewn yr Ysgol, ac mewn rhai achosion, ar y cyd ag Ysgolion eraill. Mae rhagor o wybodaeth yn Rheoliadau Academaidd y Brifysgol.

**Is-ddeddfau ac Atodiadau Is-ddeddfau**
Rheolau atodol Undeb y Myfyrwyr sy'n ffurfio – ynghyd â'r Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu – ei ddogfennau llywodraethol.

**Arolwg Ôl-raddedigion a Addysgir Prifysgol Caerdydd**
Arolwg mewnol sy'n rhoi cyfle i Fyfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir rannu eu profiadau o ddysgu ac addysgu.

**Cwmni Elusennol**
Elusen sydd hefyd yn gwmni cofrestredig. Mae'n rhaid i'r corff corfforaethol, felly, gydymffurfio â chyfraith elusennau a chyfraith cwmni. Mae hwn yn fath cyffredin o ymgorfforiad ar gyfer sefydliadau nid-er-elw yn y DU.

**Amcanion Elusennol**
Mae 'amcanion elusennol' elusen yn ffordd arall o gyfeirio at ddiben ei bodolaeth. Mae'n rhaid bod gan sefydliad amcanion elusennol yn unig i fod yn elusen; ac mae'n disgrifio'r hyn y sefydlwyd yr elusen i'w gyflawni. Mae amcan elusennol yn un sy'n syrthio o dan un neu'n fwy o'r 13 disgrifiad dibenion yn unol â gofynion cyfraith elusennau, ac er budd cyhoeddus.

**Deddf Addysg 1994**
Deddf Seneddol sy'n amlinellu'r gofynion cyfreithiol perthnasol ar gyfer Undebau Myfyrwyr a'u sefydliadau rhiant, ac yn manylu ynghylch cyfres o ddyletswyddau a osodwyd ar Undeb y Myfyrwyr a'i sefydliad. Mae Adran 22 Deddf Addysg 1994 yn cynnwys y gofynion sy'n rhaid eu bodloni mewn perthynas ag Undebau Myfyrwyr.

**Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr**
Is-bwyllgor o'r Senedd, sy'n gyfrifol am ddarparu cyfeiriad strategol a chynghori'r brifysgol ar bob mater sy'n ymwneud ag addysg a phrofiad y myfyrwyr ar draws ystod lawn ei darpariaeth ar gyfer myfyrwyr. Mae Pwyllgorau Addysg a Phrofiad Myfyrwyr Ysgolion a Cholegau yn adrodd i'r pwyllgor hwn.

**Y Corff Llywodraethol**
Llywodraethwyr unrhyw sefydliad sy'n gyfrifol yn ôl y gyfraith am reoli a gweinyddu'r sefydliad. Fel elusennau, mae gan y Brifysgol a'r Undeb fel ei gilydd Fwrdd Ymddiriedolwyr; fodd bynnag, o fewn y Brifysgol, cân nhw eu hadnabod fel y 'Cyngor'.

**Memorandwm ac Erthyglau Cyweithio**
Dogfen lywodraethol yr Undeb. Dyma'r ddogfen gyfreithiol sy'n creu'r cwmni ac yn dweud sut y dylai gael ei redeg. Mae gan yr Undeb Erthyglau Cyweithio am ei fod yn gwmni elusennol.

**Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS)**
Arolwg ledled y DU sy'n rhoi'r cyfle i fyfyrwyr israddedig ar eu blwyddyn olaf rannu eu barn ynghylch safon eu cyrsiau, sy'n cefnogi'r sefydliad drwy wella profiad y myfyrwyr.

**Ein dyfodol, gyda'n gilydd**
Mae strategaeth y Brifysgol yn manylu ar ei llwybr hyd at 2035. Ceir rhagor o fanylion ar wefan y Brifysgol: https://www.cardiff.ac.uk/cy/about/our-profile/strategy/our-future-together.

**Rhent Rhad (*Peppercorn Rent*)**
Term cyfreithiol am swm o arian isel iawn, neu mewn enw.

**Arolwg o Brofiadau Ymchwilwyr Ôl-raddedig (PRES)**
Arolwg ledled y DU sy'n rhoi'r cyfle i Fyfyrwyr Ôl-raddedig Ymchwil rannu eu profiadau o ddysgu a goruchwylio yn eu sefydliad.

**Statudau**
Statudau'r Brifysgol yw un o ddogfennau cyfansoddiadol y Brifysgol o ganlyniad i'w statws fel corfforaeth gorfforedig drwy Siarter Brenhinol. Mae'r Statudau'n cynnwys manylion aelodau'r Brifysgol a'r rheolau ynghylch cyrff statudol.

**Paneli Myfyrwyr-Staff**
Cyfarfodydd a gynhelir yn y Brifysgol sy'n dod â Chynrychiolwyr Academaidd y Brifysgol a staff yr Ysgol ynghyd i drafod materion sy'n effeithio ar boblogaeth y myfyrwyr ar lefel leol.

**Grŵp Rheoli Arolygon**
Sefydlwyd i gael cyfrifoldeb trosfwaol dros oruchwyliaeth strategol yr holl arolygon allweddol ynghylch profiad myfyrwyr. Mae'r grŵp hwn yn cynnig agwedd sefydliadol tuag at arolygon, o ddyluniad i gau'r ddolen adborth.

**Barn y Myfyrwyr**
Dogfen a gynhyrchir gan dîm y Swyddogion Sabothol yn Undeb y Myfyrwyr, sy'n cynnig cyfres o argymhellion i'r Brifysgol ar sail data ac adborth gan gorff y myfyrwyr, ynghylch bywyd myfyrwyr.

**Pwyllgor Llais a Phartneriaeth Myfyrwyr**
Mae'r grŵp hwn yn darparu goruchwyliaeth ar yr holl faterion sy'n ymwneud â llais myfyrwyr a gwella partneriaeth y Brifysgol gydag Undeb y Myfyrwyr ac yn adrodd i'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr.

**Pwyllgorau’r Brifysgol**
Mae Pwyllgorau'r Brifysgol yn cyflawni amrywiaeth o swyddogaethau. Mae eu cylch gorchwyl, fel y diffinnir gan Ddeddfiad neu reoliad arall, yn amlinellu eu haelodaeth, eu pwerau a'u dyletswyddau, yn ogystal â'u gweithdrefnau adrodd. Mae manylion ynghylch fframwaith llywodraethu'r Brifysgol ar wefan y Brifysgol: https://www.cardiff.ac.uk/about/organisation/governance

**Cyngor y Brifysgol**
Cyngor y Brifysgol yw corff llywodraethu'r Brifysgol, felly hwnnw yw prif awdurdod y Brifysgol. Y corff hwn sydd â’r gair olaf ynglŷn â phob mater sy'n effeithio ar y Brifysgol.